



The Open  
University  
Y Brifysgol  
Agored

WALES CYMRU

## Rita



Doeddwn i ddim yn credu yr oeddwn i'n rhan o unrhyw rwydweithiau neu gymunedau, ond rwy'n sylweddoli nawr fy mod i. Nid yw'r rhan fwyaf o hyn ar-lein, ond po fwyaf rwy'n meddwl amdano, mae'r ffiniau rhwng y byd ar-lein a'r byd 'go iawn' yn eithaf niwlog!

Rwy'n mynychu cynadleddau addysgu i wneud yn siŵr bod fy sgiliau'n gyfredol, ac i gael gwybod am yr arloesiadau diweddaraf mewn technoleg addysgol. Rwy'n cyfarfod â phobl newydd yn y digwyddiadau hyn yn aml, pobl fel fi sy'n gwneud swyddi tebyg mewn ffordd debyg.

Rwy'n cadw mewn cysylltiad â'r bobl hyn ac eraill trwy e-bost a rhestrau postio ar gyfer athrawon sydd â diddordebau penodol, ac, mewn rhai achosion, rydyn ni wedi dod yn ffrindiau Facebook hefyd. Rydyn ni'n aml yn rhannu syniadau newydd, neu dechnolegau neu dechnegau newydd rydyn ni wedi'u darganfod, ond mae gwneud hynny trwy e-bost bob amser ychydig yn drafferthus, oherwydd dydych chi byth yn siŵr a ydych chi'n plagio pobl trwy eu cynnwys pan nad oes ganddynt diddordeb mewn gwirionedd.

Rwy'n mynd i ofyn i'm holl ffrindiau sy'n athrawon a ddylen ni sefydlu rhestr ar Twitter, er bod rhaid i mi gyfaddef nad ydw i wedi gwneud fawr o ddefnydd ohono yn y gorffennol. Ar Twitter, fe allen ni rannu pethau'n gyflym ac yn syml, a gallai pobl ddewis p'un ai i ymgysylltu ai peidio. Hefyd, byddai'n cadw ein holl drafodaethau mewn un man, fel y gallwn gyfeirio'n ôl at bethau'n rhwydd. Byddai'n ffordd wych i mi rannu fy nghynlluniau ar gyfer symud fy nghwrs ar-lein, a chael gwybod a oes unrhyw un wedi gwneud rhywbeth tebyg eisoes ac yn gallu rhoi unrhyw gyngor i mi.

Pwy fyddai'n tybio fy mod i'n rhan o 'gymuned ymarfer'? Ond mae'n ymddangos felly!